



Adroddiad Cyfarfod
08:12:21
Dathlu'r Nadolig

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un anodd i fudiadau o bob math ac felly braf oedd gallu dathlu diwedd ein tymor cyntaf o gyfarfod wyneb-yn-wyneb trwy gefnogi menter eithaf newydd i'r pentref.

Ar yr 8fed o Ragfyr, daeth nifer da o'r aelodau i Perthyn, Bethel ar gyfer cinio Nadolig.

Croesawodd Anne Elis, Llywydd, Mair Williams yn ôl atom yn dilyn llawdriniaeth. Cydymdeimlwyd a Nan Rowlands yn ei phrofedigaeth o golli ei Mham.

Pleser oedd cael llongyfarch dwy o'r aelodau. Daeth Jen Roberts yn Nain am y pedwerydd tro gyda geni mab i Casi ac Aled. Daeth Nora Parry yn hen Nain am y tro cyntaf gyda geni Llywelyn Elis mab i Sioned a Rhys.

Anfonwyd cofion at Meira Evans sydd newydd dderbyn llawdriniaeth. Dymunwyd yn dda i Anwylid Jones sydd wedi symud i Dregarth dros dro ac i Ieuan Williams (gŵr Gwyneth), Llain yr Ardd, sydd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Darllenwyd e-bost gan Llinos Angharad yn diolch am y croeso gafodd gan yr aelodau ym mis Tachwedd ac am y rhodd o dros £70 tuag at elusen Tir Dewi.

Braf oedd cael rhannu cofion at yr aelodau gan Glenys Griffiths un o'r cyn aelodau.

Yna, cawsom fwynhau cinio blasus iawn wedi ei baratoi gan staff Perthyn. Diolch yn fawr iddynt am eu croeso ac yn bendant, nid hwn fydd yr ymweliad olaf gan y gangen.

I gloi'r noson cymerwyd rhan mewn cwis wedi ei baratoi gan y Swyddogion. Dyfalu enwau ac oed 12 o ferched o Gymru sy'n flaengar ym myd adloniant, chwaraeon, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth. Cyflwynwyd gwobr i'r fîm buddugol sef Mair Read, Mary Wyn Jones, Anita Owen a Gwenan Roberts.

Enillwyd y gwobrau raffl gan Anita Owen, Beti Owen a Nan Jones. Diolch i Liz Evans, Pen Parc am ei chyfraniad i'r raffl.